# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 15fed o Fai 2023 am 7:10pm

*Symudwyd y cyfarfod o'r Ganolfan i swyddfa Greenaway & Co Ltd gan nad oedd ystafell gyfarfod ar gael yn y Ganolfan*

Presennol: Cynghorydd Alan H. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Bethan Lawton, Richard Jones Evans, Geraint Evans, Geraint Edwards

Croesawyd y Cynghorydd Geraint Evans yn ôl ar ôl cyfnod byr o waeledd.

**CYFARFOD BLYNYDDOL**

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Richard C Evans

2. Datgan diddordeb: Eitem 24 – Cynghorydd Arwel Pierce – yn aelod o bwyllgor Dail Dysynni
   Eitem 24 – Cynghorydd Bethan Lawton – yn aelod o bwyllgor Dail Dysynni

3. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd gan Gynghorwyr:

   Cafwyd wybod gan y Clerc bod yr eitem ar yn agenda mewn camgymeriad.

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

4. Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2023/2024:

   **PENDERFYNIAD:** Etholwyd y Cynghorydd Alan H. Jones yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2023/2024.

5. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd y Cadeirydd:

   **PENDERFYNIAD:** I'w dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

6. Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2023/2024:

   **PENDERFYNIAD:** Etholwyd y Cynghorydd Geraint Evans yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2023/2024.

7. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd Is-Gadeirydd:

   **PENDERFYNIAD:** I dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

8. Derbyn cylch gorchwyl Elusen R.J.Roberts:

   **PENDERFYNIAD:** I fabwysiadu'r cylch gorchwyl.

9. Enwebu Cynghorwyr i eistedd ar bwyllgor Elusen R.J.Roberts (Dolgoch):

   **PENDERFYNIAD:** Y Cynghorwyr i gyd, sef: Bethan Lawton, Alan H Jones, Richard Jones Evans, Arwel Pierce, Geraint Evans, Geraint Edwards a Richard C Evans.

10. I gadarnhau rhestr o gyfarfodydd y Cyngor am y flwyddyn 2023/2024:

    **PENDERFYNIAD:** I dderbyn y rhestr o gyfarfodydd am y flwyddyn 2023/2024.

11. I dderbyn adroddiad blynyddol y cyngor am y flwyddyn 2022/2023:

    **PENDERFYNIAD:** I dderbyn yr adroddiad mewn cyfarfod dilynol.

12. I dderbyn cynllun hyfforddiant:

Trafodwyd y cynllun a chytunwyd ar newidiadau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cynllun diwygiedig.
Y Clerc i anfon copi o'r cynllun diwygiedig i gynghorwyr.

13. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn yr argymhellion, gan gynnig y symiau perthnasol i gynghorwyr – sydd yn cynnwys lwfans £156, lwfans £52, lwfans i ofalwyr a chostau teithio.

14. Enwebu a phenodi Cynghorwyr i gyrff allanol:

**PENDERFYNIAD:** I enwebu'r canlynol:
Ysbyty Tywyn a'r Cylch - y Cynghorydd Bethan Lawton
Un Llais Cymru - y Cynghorydd Arwel Pierce
Ysgol Gynradd Craig y Deryn - y Cynghorydd Bethan Lawton

15. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog:

Cafwyd wybod bod y rheolau sefydlog angen eu diwygio ac nid oedd Un Llais Cymru wedi anfon fersiwn diwygiedig.

**PENDERFYNIAD:** I fabwysiadu'r rheolau sefydlog pan bod fersiwn diwygiedig yn cael ei dderbyn gan Un Llais Cymru.
I barhau gyda rheolau sefydlog presennol nes bod rheolau sefydlog newydd yn cael eu mabwysiadu.

16. Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol:

**PENDERFYNIAD:** I fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol.

17. Mabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr:

**PENDERFYNIAD:** I fabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr.

18. Derbyn Cofrestr Buddiannau Aelodau:

Nodwyd bod cynghorwyr wedi cwblhau'r ffurflenni yn dilyn yr etholiad ym Mai 2022.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

19. Adolygu'r Gofrestr Asesiad Risg y Cyngor:

Nodwyd bod risg iechyd a diogelwch wedi ei nodi yn uchel gyda rhif 25.

**PENDERFYNIAD:** I beidio derbyn yr asesiad ac i ofyn am arweiniad gan Un Llais Cymru.

20. Penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer 2023/2024:

**PENDERFYNIAD:** I benodi Cyngor Gwynedd yn archwilydd mewnol y Cyngor.

**CYFARFOD ARFEROL**

21. Derbyn cofnodion 20 Mawrth 2023:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

22. Derbyn cofnodion 17 Ebrill 2023:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

23. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101841 | £210.06 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101842 | £52.60 |
| Jones & Jones | Amrywiol | 101843 | £288.00 |
| Treecare Consulting | Arolwg Coed | 101844 | £216.00 |
| Dail Dysynni | Rhodd | 101845 | £50.00 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

24. Cais ariannol - Dail Dysynni:

Bu i'r Cynghorydd Bethan Lawton a'r Cynghorydd Arwel Pierce ddatgan buddiant sydd ddim yn rhagfarnu fel aelodau o bwyllgor y corff dan sylw a bu iddynt aros yn y cyfarfod.

**PENDERFYNIAD:** I gynnig £50 fel rhodd tuag at gynnal y papur cymunedol.

25. Llythyr o ddiolch - Elusen Ambiwlans Awyr:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

26. Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Tref Tywyn - Afon Fathew/pryder am lifogydd - diweddariad:

Adroddodd gynghorydd bod y ddafad oedd wedi marw ac yn gorwedd mewn ffos wedi ei symud gan y tirfeddiannwr.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

27. Ysbyty Tywyn a'r Cylch – cau ward cleifion mewnol dros dro - diweddariad:

Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cynghorydd Bethan Lawton:
- Y Gweinidog Iechyd, Eluned Morgan AS wedi bod yn yr ysbyty a'r ganolfan iechyd ar ymweliad
- Y Bwrdd Iechyd yn cyflogi dau unigolyn ac mewn sefyllfa i ail agor yr uned man anafiadau, gan anelu i'w redeg pum diwrnod yr wythnos
- Dau feddyg wedi datgan diddordeb ac yn ystyried rhannu swydd
- Nid oedd bwriad i gau'r ysbyty ac 'roedd y Bwrdd Iechyd yn edrych ar fodelau gwahanol ar gyfer y ddarpariaeth iechyd ym Mro Dysynni
- Hosbis Dewi Sant wedi datgan diddordeb mewn sefydlu gwlâu diwedd oes yn yr ysbyty
- Rhagor o gyfarfodydd wedi eu rhaglenni dros yr wythnosau nesaf

Cafwyd trafodaeth ar sut y dylid cyfathrebu'r newyddion a'r newidiadau gyda'r gymuned.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I gydnabod yr holl waith sydd wedi ei wneud dros yr wythnosau diwethaf a diolch i bawb sydd wedi bod ynghlwm a'r mater.

28. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Gweminarau Aelodau Cynghorau Cymuned - Cynllun Datblygu Lleol:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

29. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru - Ymgynghoriad - Grwpiau Ffocws:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

30. Cyngor Cymuned Pistyll - Diffygion darpariaeth hyfforddiant yn y Gymraeg:

**PENDERFYNIAD:** I gefnogi'r galw am ragor o hyfforddiant i gynghorwyr drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â chynllun hyfforddiant y cyngor sydd wedi ei fabwysiadu.

31. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-yr oedd y Pafiliwn wedi bod ar agor ar gyfer picnic cymunedol yn ystod arwisgo'r Brenin
-yr oedd toiled yr anabl yn fudr iawn
-yr oedd dŵr yn gollwng o dan gawod yn ystafell y dyfarnwr ac angen sylw plymwr
-dwr ddim yn rhedeg yn y wrinalau
-tapiau ym mhob un toiled angen sylw, gan gynnwys y gegin
-pibell ddŵr yn mynd allan o'r storfa

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I gysylltu gyda phlymwr i edrych ar y Pafiliwn

32. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nid gwybodaeth i'w raeadru gan y Cynghorydd Sir.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

33. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Trafodwyd llecyn o dir ger Ffordd y Felin wrth ymyl y pwmp codi dŵr. Cadwyd hefyd drafodaeth am dir y tu ôl i Deras y Graig.

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at y preswylwyr yn rhesdai y Graig gan eu hysbysu bod unigolyn/unigolion yn cerdded cŵn ac nid oeddent yn codi baw'r cŵn. Yn sgil hynny yr oedd contractwr y cyngor sydd yn torri'r gwair methu ymgymryd â'r gwaith.
I blannu rhagor o blanhigion mewn cynhwysydd planhigion ger y pwmp codi dŵr.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:25pm

Llofnod y Cadeirydd ...........................................................